CarShare2Cardiff.com

# NEWSLETTER

Cardiff Council : Tel (029) 2087 2000

Issue 1

Spring 2007

SPECIAL FEATURES:

- ***Car Share goes Journey Share***
- ***Full bilingual site launched***
- ***Members Features***

## WELCOME TO THE FIRST ISSUE OF THE CARSHARE2CARDIFF NEWSLETTER.

This newsletter is designed to:
- provide news about developments on the site
- advertise the advantages of car and journey sharing
- encourage organisations to produce Travel Plans for their employees.

### WHAT IS CARSHARE2CARDIFF?

CarShare2Cardiff.com is Cardiff Council's own journey sharing website that offers an individual member the opportunity to find a potential travelling companion for all or part of their journey to work.

The system has been developed in partnership with Jambusters Ltd to provide a free service to employees of subscribing organisations.
A secure, closed group journey share scheme can make a positive contribution to reducing the number of cars on the roads during the peak hours. Cardiff Council is keen to promote an increase in the use of sustainable modes of transport in the city, in particular for commuting journeys.

## WHAT'S NEW AT CARSHARE2CARDIFF.COM?

### CAR SHARE GOES 2 JOURNEY SHARE.

CarShare2Cardiff software now offers the choice to share a journey by other modes of transport. You can find travelling companions for walking, cycling, public transport and taxi journeys. In order to find these matches you just need to alter your preferences on your individual welcome page and look for a match.
The system to match journeys by other transport modes is new and so it will take a little time to build the number of members who want to find journey share companions for these trips. As with car sharing, the more people who register the better the chance




of finding a match- and by doing it just once a week there are benefits for you, the city and the environment.

As the weather gets warmer and the mornings and evenings lighter, cycling becomes a much more attractive way of getting to work. Cardiff has some good off road cycle ways for you to take advantage of! You can find more information about cycling and access the Council Cycle Maps by looking at the Cycling pages on the Cardiff Council internet site. cardiff.gov.uk/cycling

**Did you know that the average daily commute is only 9 miles?**




## CarShare2Cardiff Goes Bilingual!




CarShare2Cardiff has now become the first fully bilingual car share scheme in the Country.
Cardiff Council is working with Jambusters to ensure that you can find out about the scheme, register and find a journey share match in Welsh or English! The Welsh language site was launched early in February 2007.

Just follow rhannuceircaerdydd.com but remember that your potential journey share match may not, at first, be a Welsh speaker!

## Why Should I Journey Share?

With increasing congestion and longer journey times the journey to work can be a trial. In addition, finding parking when you get to work can be a problem.

Most organisations that operate a car share scheme offer designated parking for their sharers. In this way you can control your journey to work – no need to leave at daybreak to get that space – and still park when you arrive!

If you opt to travel by alternative means there are other advantages. Let somebody else do the driving whilst you read, or listen to music. Cycling or walking to work helps you to stay fit… and there are no parking problems when you arrive at the end of the journey!

### Sharing a car…

- Reduces the number of cars on the roads - resulting in less congestion, less pollution and fewer parking problems
- Gives employees and employers more transport options
- Reduces the need for private car ownership
- Saves you money - travelling with others enables you to reduce your transport costs by up to £1000 a year. *(source:Carplus.org.uk)*

## Member Feature - Car Sharer

Suzanne White, a Senior Technician in Transport Infrastructure and Waste at County Hall is encouraging people to consider car sharing on their daily commute.

Suzanne has been car sharing for over 2 years on her daily journey to County Hall.

"*Best of all it's great to know on a Monday morning that, when everybody else is rushing to be in by 8am before the car park fills up, you can take your time, have a bit of a lie in and still have a parking space!*"

You don't need to journey share every day! If we all left our cars at home at once a week the numbers of vehicles used for commuting to work could be reduced by up to 20% and we could all make a positive contribution to reducing pollution and slowing climate change.



*Suzanne has been Car Sharing for over 2 years*

## Member Feature - Cycling to Work

Sarah Lart, a Council Sustainable Development Officer based at County Hall has two small children to get to school before she leaves for work! Sarah is well aware of the challenge of parking at County Hall each morning and has opted to do her bit to help to cut congestion.

A member of the Car Share scheme for a year, changes in the morning routine mean that Sarah and her children now travel to their local school on foot before Sarah makes the rest of her journey to County Hall using pedal power.

Sarah strongly believes in the benefits of travelling by bike:

"*I can get from Canton to County Hall in 15 minutes. It's 15 minutes of aerobic exercise which can be hard to get when you have small children. The kids also love to travel to school on the tandem and it's helping them to understand that most of our shorter journeys can be made without using the car*"… and on those mornings where the weather is against her, Sarah opts to travel to work on the bus.



## Member Feature - Walking to Work



*"At the end of the day it helps me to unwind and I can leave any stresses and strains behind me"*

Mark Munnery, Venues Manager for Cardiff Council has been walking to work for 3 years now and finds it the perfect way to start the day.

Mark lives less than 2 miles from his city centre office and really feels the benefits of making the journey on foot. He even walks from the city centre to Cardiff Bay for meetings on fine days and when the weather is not so good, uses public transport to make the journey.

"*Starting the day off with a walk helps me maintain my fitness and gives me time to mentally prepare for the day ahead. At the end of the day it helps me to unwind and I can leave any stresses and strains behind me without adding to them by sitting in a traffic queue.*"

Mark encourages others to follow suit whenever they can:

"*If you need a walking companion you could sign up to CarShare2Cardiff.com and find somebody to share that journey. It could be a good way to start off the process of leaving the car at home on a more regular basis!*"

## Useful Information

**Road Safety Information:**
www.roadsafety.cardiff.gov.uk

**Travel Companies Direct:**
Cardiff Bus: www.cardiffbus.com
Arriva Trains: www.arrivatrainswales.co.uk
National Rail Network: www.nationalrail.co.uk (tel. 08457 48 49 50)

**Planning for Travel:** Traveline Cymru: www.traveline-cymru.info

**Other Sources:** BBC Travel Links: www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel

Information about writing Travel Plans:
Web: www.cardiff.gov.uk/travelplans - e-mail: travelplans@cardiff.gov.uk

Information about the Councils's Transport Strategy: www.keepingcardiffmoving.co.uk

## Un o'r Aelodau – Cerdded i'r Gwaith




*"Ar ddiwedd y dydd mae'n fy helpu i ymlacio a gallaf adael unrhyw bwysau a diflastod y tu ôl i mi"*

Mae Mark Munnery, Rheolwr Lleoliadau i Gyngor Caerdydd, wedi bod yn cerdded i'r gwaith ers 3 blynedd bellach ac yn ei ystyried yn ffordd berffaith i gychwyn y diwrnod. Mae Mark yn byw lai na 2 filltir o'i swyddfa yng nghanol y ddinas ac yn teimlo'r manteision o gerdded yno. Mae hyd yn oed yn cerdded o ganol y ddinas i Fae Caerdydd ar gyfer cyfarfodydd ar ddiwrnodau braf, a phan nad yw'r tywydd cystal, mae'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y daith. "Gan gychwyn y diwrnod drwy gerdded mae'n fy helpu i gadw fy ffitrwydd ac yn rhoi amser i mi baratoi'n feddyliol ar gyfer y diwrnod. Ar ddiwedd y diwrnod mae'n fy helpu i ymlacio a gallaf adael unrhyw bwysau a diflastod y tu ôl i mi heb ychwanegu atynt drwy eistedd mewn ciw traffig." Mae Mark yn annog pobl eraill i wneud yr un peth pryd bynnag bo modd: "Os oes angen cydymaith cerdded arnoch gallwch gofrestru ar RhannuCeirCaerdydd.com i ddod o hyd i rywun i rannu'r siwrnai honno. Gall fod yn ffordd dda o gychwyn y broses o adael y car gartref yn fwy rheolaidd!"

## Gwybodaeth Ddefnyddiol

**Gwybodaeth am Ddiogelwch y Ffyrdd:**
www.roadsafety.cardiff.gov.uk

**Cwmnïau Teithio:**
Bws Caerdydd: www.cardiffbus.com
Trenau Arriva: www.arrivatrainswales.co.uk
National Rail: www.nationalrail.co.uk (ffôn 08457 48 49 50)

**Cynllunio ar gyfer Teithio:** Traveline Cymru: www.traveline-cymru.info

**Ffynonellau Eraill:** Dolenni Teithio y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/deddwyrain/teithio

Gwybodaeth am ysgrifennu Cynlluniau Teithio:

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cynlluniauteithio - e-bost: travelplans@cardiff.gov.uk

Gwybodaeth am Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor: www.keepingcardiffmoving.co.uk

## Un o'r Aelodau – Rhannu Ceir

Mae Suzanne White, Uwch Dechnegydd yn yr adran Trafnidiaeth, Seilwaith a Gwastraff yn Neuadd y Sir, yn annog pobl i ystyried rhannu ceir ar eu taith ddyddiol.

Mae Suzanne wedi bod yn rhannu ceir ers dros 2 flynedd ar ei siwrnai ddyddiol i Neuadd y Sir.

"Gorau oll, mae'n braf gwybod ar fore Llun, pan fydd pawb ar frys i gyrraedd erbyn 8am cyn i'r maes parcio lenwi, y gallwch gymryd eich amser, cysgu'n hwyrach a chael lle i barcio!"

Does dim angen i chi rannu siwrnai bob dydd! Pe bai pob un ohonom yn gadael ein ceir gartref unwaith yr wythnos gellid lleihau'r nifer o gerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cymudo hyd at 20%, a gall pawb wneud cyfraniad positif tuag at leihau llygredd ac arafu newid yn yr hinsawdd.




*Mae Suzanne wedi bod yn Rhannu Ceir ers dros 2 flynedd*

## Un o'r Aelodau – Seiclo i'r Gwaith

Mae gan Sarah Lart, Swyddog Datblygu Cynaliadwy i'r Cyngor yn Neuadd y Sir, ddau blentyn ifanc i'w danfon i'r ysgol cyn gadael am y gwaith! Mae Sarah yn gwbl ymwybodol o'r her i barcio yn Neuadd y Sir bob bore ac wedi dewis gwneud ei rhan i helpu i leihau tagfeydd.

A hithau wedi bod yn aelod o'r cynllun rhannu ceir am flwyddyn, mae newidiadau yn nhrefn y bore yn golygu bod Sarah a'i phlant nawr yn cerdded i'r ysgol leol cyn i Sarah wneud gweddill ei siwrnai i Neuadd y Sir ar ei beic. Mae Sarah yn credu'n gryf yn y manteision o deithio ar feic:

"Gallaf fynd o Dreganna i Neuadd y Sir mewn 15 munud. Mae'n 15 munud o ymarfer aerobeg sy'n gallu bod yn anodd os oes gennych blant bach. Mae'r plant wrth eu bodd yn teithio i'r ysgol ar y tandem ac mae'n eu helpu i ddeall y gellir gwneud y rhan fwyaf o siwrneiau byr heb ddefnyddio'r car"... ac ar y diwrnodau hynny pan fydd y tywydd yn ei herbyn, bydd Sarah yn teithio i'r gwaith ar y bws.



Wrth i'r tywydd gynhesu a chyda'r boreau a'r nosweithiau yn oleuach, mae seiclo yn ffordd llawer mwy deniadol o fynd i'r gwaith. Mae gan Gaerdydd lwybrau seiclo da oddi ar y ffordd i chi fanteisio arnynt! Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am seiclo a gweld Mapiau Seiclo'r Cyngor drwy edrych ar y tudalennau Seiclo ar ryngrwyd Cyngor Caerdydd, caerdydd.gov.uk/seiclo

**OEDDECH CHI'N GWYBOD MAI DIM OND 9 MILLTIR YW CYFARTALEDD Y SIWRNAI GYMUDO DDYDDIOL?**




## RhannuCeirCaerdydd yn Ddwyieithog!




RhannuCeirCaerdydd yw'r cynllun rhannu ceir cwbl ddwyieithog cyntaf yn y wlad. Mae Cyngor Caerdydd wrthi'n gweithio â Jambusters i sicrhau y gallwch gael gwybodaeth am y cynllun, cofrestru a dod o hyd i gyd-deithwyr drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg! Lansiwyd y safle Cymraeg ar ddechrau mis Chwefror 2007. Ewch i rhannuceircaerdydd.com ond cofiwch efallai na fydd eich cyd-deithiwr, i gychwyn, yn siaradwr Cymraeg!

## Pam Ddylwn i Rannu Siwrnai?

Pam Ddylwn i Rannu Siwrnai?

Gyda thagfeydd cynyddol ac amseroedd teithio hwy, gall y siwrnai i'r gwaith fod yn ddiflas. Hefyd, gall dod o hyd i le parcio wrth fynd i'r gwaith fod yn broblem. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n gweithredu cynllun rhannu ceir yn cynnig mannau parcio arbennig i'r bobl sy'n rhannu. Oherwydd hyn, mae'n bosibl rheoli eich siwrnai i'r gwaith - dim angen gadael ben bore i frwydro am le - a bydd lle i barcio pan gyrhaeddwch! Pe baech yn dewis teithio drwy ddulliau gwahanol mae manteision eraill. Gadewch i rywun arall yrru wrth i chi ddarllen, neu wrando ar gerddoriaeth. Mae seiclo neu gerdded yn eich helpu i gadw'n heini... ac ni cheir problemau parcio wrth i chi gyrraedd ar ddiwedd y siwrnai!

### Mae rhannu ceir...

- Yn lleihau'r nifer o geir ar y ffyrdd – gan arwain at lai o dagfeydd, llai o lygredd a llai o broblemau parcio
- Yn rhoi mwy o ddewisiadau teithio i weithwyr a chyflogwyr
- Yn lleihau'r angen i fod yn berchen ar gar preifat
- Yn arbed arian – mae teithio gydag eraill yn eich galluogi i leihau eich costau trafnidiaeth hyd at £1000 y flwyddyn. (source:Carplus.org.uk)

RhannuCeirCaerdydd.com

# CYLCHLYTHYR

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 2000

Rhifyn 1

Gwanwyn 2007

Nodweddion Arbennig:

- ***Rhannu Ceir neu Gyd-deithio***
- ***Lansio safle dwyieithog llawn***
- ***Rhai o'r Aelodau***

## CROESO I RIFYN CYNTAF CYLCHLYTHYR RHANNUCEIRCAERDYDD.

Bwriad y cylchlythyr hwn yw: • rhoi newyddion am ddatblygiadau ar y safle • hysbysebu manteision rhannu ceir a chyd-deithio • annog sefydliadau i greu Cynlluniau Teithio ar gyfer gweithwyr.

### BETH YW RHANNUCEIR-CAERDYDD?

RhannuCeirCaerdydd.com yw gwefan rhannu ceir Cyngor Caerdydd sy'n rhoi cyfle i aelodau unigol ddod i hyd i gymar teithio ar gyfer eu siwrnai i'r gwaith neu ran ohoni.

Datblygwyd y system mewn partneriaeth â Jambusters Ltd i ddarparu gwasanaeth am ddim i weithwyr sefydliadau sy'n tanysgrifio. Gall cynllun cyd-deithio diogel wneud cyfraniad pwysig tuag at leihau'r nifer o geir sydd ar ein ffyrdd yn ystod oriau brig. Mae Cyngor Caerdydd yn awyddus i gynyddu'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy yn y ddinas, yn enwedig ar gyfer siwrneiau cymudo.

## BETH SY'N NEWYDD AR RHANNUCEIRCAERDYDD.COM?

### RHANNU CEIR NEU GYD-DEITHIO.

Mae meddalwedd RhannuCeirCaerdydd erbyn hyn yn cynnig y dewis i rannu siwrnai drwy ddulliau trafnidiaeth eraill. Gallwch ddod o hyd i gymdeithion teithio ar gyfer cerdded, seiclo, trafnidiaeth gyhoeddus a siwrneiau tacsi. Er mwyn dod o hyd i gymar teithio, newidiwch eich blaenoriaethau ar eich tudalen unigol ac edrychwch am rywun addas. Mae'r system i baru siwrneiau trwy ddulliau trafnidiaeth eraill yn newydd a bydd yn cymryd ychydig o amser i gynyddu'r nifer o aelodau sydd eisiau dod o hyd i gyd-deithwyr ar gyfer y teithiau hyn. Fel gyda rhannu ceir, y




gorau po fwyaf sy'n cofrestru i ddod o hyd i gyd-deithwyr - a thrwy wneud hynny unwaith yr wythnos, bydd manteision i chi, i'r ddinas ac i'r amgylchedd.